

SACRE SIR Y FFLINT
DYDD MERCHER, 20 CHWEFROR 2019

Cofnodion cyfarfod SACRE Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ysgol Maes Garmon, Conway Street, Mold, CH7 1JB Dydd Mercher, 20 Chwefror 2019

YN BRESENNOL: (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Chris Bithell (CB), Dave Mackie (IR), Janet Axworthy (JA)

ENWADAU CREFYDDOL: Gareth Wyn Jones (GJ) Huw Powell Davies

HEFYD YN BRESENNOL: Joanna Hayes – Arweinydd Tîm Newid Busnes a Chefnogaeth (JH) Clerc;

CYNYRCHIOLWYR ATHRAWON: Dim

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Paul Cunningham, Adele Davies-Cooke, Colin Legg, Ian Roberts and Oakes

8. CROESCO A CHYFLWYNIADAU

Agorodd VB y cyfarfod wrth holi pwy oedd is-gadeirydd etholedig y cyfarfod. Mae Delyth McIntyre wedi ymddiswyddo. Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyng Chris Bithell yn cadeirio'r cyfarfod. Cytunwyd bod y cyfarfod â chworwm gan fod traean o'r swyddi wedi'u llenwi wedi'u cynrychioli (gellir diystyru swyddi gwag ar gyfer cyfrifo hyn).

Hoffai'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gyfleu wrth Delyth McIntyre y byddent yn gweld ei cholli a diolchwyd iddi am ei chyfraniad rhagorol i CYSAG. **Cam Gweithredu:** Bydd VB yn ysgrifennu ati ar ran y grŵp.

Gofynnodd y Cadeirydd fod cardiau enwau yn cael eu defnyddio yn y cyfarfod nesaf. **Cam Gweithredu:** VB i weithredu.

9. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Dyweddodd CB wrth y grŵp ei fod yn aelod o'r Eglwys yng Nghymru.

10. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018. Materion yn codi:

Tudalen 4 – Mae Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Sir y Fflint 2017-18 gan VB a bydd yn ei ddsbarthu

Tudalen 5 – Nid yw Cofnodion CCYSAGC wedi'u cynnwys yn y rhybudd o'r cyfarfod. Er gwybodaeth, mae'r rhain ar gael ar wefan CCYSAGC yma www.wasacre.org.uk/cym-meetings.html

11. CYLCH GORCHWYL DIWYGIEDIG AR GYFER CYMERADWYO

Soniodd VB am bob adran sydd wedi'u diwygio yn dilyn eu hadolygu. Mynegodd y Cadeirydd bryderon o ran cynrychiolaeth. **Cam Gweithredu:** VB i ddilyn trywydd y cais am enwebiadau.

Mae angen tynnu sylw cynrychiolwyr ysgol fod y cyfarfod wedi symud o 2pm i 4pm. **Cam Gweithredu:** I'w egluro pan gaiff y cofnodion a'r rhaglen eu dosbarthu.

Tudalen 7 – Darparwyd cywiriadau o ran yr enwau cywir ar gyfer yr Enwadau Crefyddol sydd i gael eu cynrychioli. **Cam Gweithredu:** VB i sicrhau eglurder o ran y teitlau cywir.

Tudalen 10 – (j) copi o'r adroddiad blynyddol i gael ei anfon at CCYSAGC erbyn 13 Rhagfyr. **Cam Gweithredu:** VB i ddilyn trywydd hyn.

Tudalen 10 - 5.2 Newid i Prif Swyddog Addysg. **Cam Gweithredu:** VB i'w newid.

Gyda'r diwygiadau uchod, cytunwyd yn unfrydol ar y Cylch Gorchwyl diwygiedig.

12. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU

Rhoddodd VB grynodedb o adroddiadau arolygu. Dywedodd wrth y grŵp, byddai'n arfer da pe gallai ysgolion ddefnyddio enghreifftiau Addysg Grefyddol wrth ddangos enghreifftiau i Estyn. Cytunodd CYSAG i weithio ar hyn.

Soniodd JA am adroddiad Estyn rhagorol Ysgol Gynradd Ewloe Green a dywedodd y dylid ei nodi a dylid ysgrifennu at yr ysgol i'w llongyfarch. **Cam Gweithredu:** VB i ysgrifennu ar ran CYSAG.

13. CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU - YMGYNGHORIAD CENEDLAETHOL

Rhoddodd VB grynodedb o'r ddogfen ymgynghori ac anogodd aelodau i'w darllen yn llawn. **Cam Gweithredu:** VB i ddrafftio sylwadau ar gyfer ymgynghori ar ran CYSAG yn enwedig o ran cwestiynau 9 – 13.

14. WASACRE

Trafodwyd presenoldeb yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC yng Nghaerdydd ar 26 Mawrth 2019, ond nid oes unrhyw un ar gael i fynychu. VB i weld a yw hi ar gael i fynychu ar ran CYSAG.

Cynhelir cyfarfod Tymor yr Haf yng Nghonwy a chaiff presenoldeb ei drafod.

15. CYFARFODYDD Y DYFODOL

Mae angen pwysleisio wrth gynrychiolwyr athrawon bod y cyfarfodydd yn dechrau am 4pm bellach. **Cam Gweithredu:** GJ i godi hyn yn y Fforwm Addysg Grefyddol

Dydd Mercher 12 Mehefin 2019 – 4pm – lleoliad i'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben am 5:30pm

(Dechreuodd y cyfarfod am 4.00 pm a daeth i ben am 5.30 pm)

.....
Cadeirydd